

CYFFES FFYDD

34. Am barhad mewn gras.

Y rhai a wnaeth Duw yn gymeradwy yn yr Anwylyd, a alwodd efe yn effeithiol, ac sydd yn cael eu sancteiddio gan yr Ysbryd, nis gallant syrthio yn hollol nac am byth o gyflwr o ras; ond cynhelir hwy yn sicr hyd y diwedd, a hwy fyddant gadwedig (a). Nid yw eu parhad yn ymddibynnu ar eu hewyllys hwy eu hunain, ond ar anghyfnewidioldeb arfaeth Duw, etholedigaeth gras, grym cariad y Tad, digonolrwydd iawn Crist, llwyddiant ei eiriolaeth, undeb ag ef, preswyliaid yr Ysbryd ynddynt, had Duw ynddynt, natur a chadernid y cyfamod, addewid a llw Duw. Oddi ar y pethau hyn y mae eu parhad yn sicr ac anffaeledig (b). Er y gallant trwy demtasiynau Satan, a'r byd, a mawr nerth y llygredd sydd ynddynt hwy eu hunain, ac esgeuluso defnyddio y moddion i'w cynnal, syrthio i bechodau, ac aros dros ryw amser ynddynt, a thrwy hynny anfodloni Duw, tristau yr Ysbryd Glân, amharu eu gras, colli eu cysur, caledu eu calonnau, archolli eu cydwybodau, a thynnu barnau tymhorol arnynt eu hunain, niweidio eraill, a gwaradwyddo achos Duw (c), eto cedwir hwy trwy allu Duw, trwy ffydd i iachawdwriaeth; ond gwneir eu cwympiadau yn chwerw iawn iddynt (d).

Y mae y rhai sydd yn parhau i fyw yn dawel mewn pechod, ac yn ymgysuro eu bod mewn cyflwr grasol, ag arwyddion trymion arnynt eu bod yn eu twyllo eu hunain (e). Oblegid nid parhad i etifeddu a mwynhau y breintiau yn unig yw parhad mewn gras, ond parhad mewn sancteiddrwydd, diwydrwydd, a gwyliadwriaeth, mewn agwedd a rhodiad sanctaidd, ac ymarferiad difrifol o bob

dyletswyddau a moddion gras ydyw; ac nid oes dim yn fwy croes i bechod na pharhau mewn gras; a'r neb a barhao felly mewn gras hyd y diwedd a fydd cadwedig (f).

34. Of Perseverance in Grace.

Those whom God has made accepted in the beloved, has effectually called, and sanctifies by his Spirit, cannot totally and finally fall away from a state of grace, but will certainly be enabled to persevere to the end and shall be saved (a). Their perseverance depends, not upon their own will, but upon the immutability of God's decree, the election of grace, the strength of the Father's love, the sufficiency of Christ's propitiation, the efficacy of his intercession, their union with Christ, the indwelling of the Spirit, the seed of God within them, the nature and steadfastness of the covenant, and the promise and oath of God. It follows that their perseverance is certain and infallible (b). It is true they may, through the temptations of Satan and the world, the great strength of their inward corruption, and their neglect of the means of grace, fall into sins, and, for a time, continue therein, and thereby incur God's displeasure, grieve the Holy Spirit, impair their grace, lose their comfort, harden their hearts, wound their consciences, involve themselves in temporal judgments, do injury to others, and give occasion to the enemies of the Lord to blaspheme (c). Nevertheless, they will be kept by the power of God through faith unto salvation; yet their fall will be made very bitter to them (d).

Those who continue to live undisturbed in sin, and flatter themselves that they are in a state of grace, have much reason to fear that they deceive themselves (e). For perseverance in grace implies, not only

continuance in the possession and enjoyment of privileges, but also continuance in holiness, diligence, and watchfulness, in a holy walk and conversation, in earnest devotion to all duties, and in the use of all means of grace. Nothing is more opposed to sin than perseverance in grace; and he that so endures in grace to the end shall be saved (f).

(a) 2 Pedr/2 Peter 1:10; Phil. 1:6; Ioan/John 6:35, 39-40, 10:28-29; 1 Pedr/1 Peter 1:5,9; Diar./Prov. 4:18; Salm/Psa. 84:7.

(b) Rhuf./Rom. 8:31-39, 9:11,16; 2 Tim. 2:19; Jer. 31:3; Ioan/John 10:28 gwêl/see (a); Ioan/John 13:1, 14:16-17; 17:11; 1 Pedr/1 Peter 3:18; Heb. 7:25, 9:12, 10:14; Luc/Luke 22:32; 1 Ioan/1 John 2:19; 2 Thes. 3:3.

(c) Salm/Psa. 30:7, 32:3, 51:8-14; Math./Matt. 26:70-74; 2 Sam. 11:27: 12:14; Eseia/Isa.64:5; Dat./Rev. 2:4; Caniad Sol./Song Sol. 5:6.

(d) 1 Pedr/1 Peter 1:5 gwêl/see (a); Jwd./Jude 1:24-25; Eseia/Isa 54:7-10; Jer 2:19, 3:12, 4:18; Salm/Psa. 89:31-34.

(e) Rhuf./Rom. 6:1-2; Phil. 3:18-19; 2 Pedr/2 Peter 2:8; Heb. 4:1.

(f) 1 Pedr/1 Peter 1:13-15; Rhuf./Rom. 2:7; Heb. 12:1-2, 6:11; 2 Pedr/2 Peter 1:5-8; 2 Tim. 2:3-5; 1 Cor. 9:24-27; Math./Matt. 24:13; Dat./Rev. 2:10